

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth
Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys
Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros
Dro) 2018

The A55 Trunk Road (Slip Roads
at Junction 6 (Nant Turnpike), Isle
of Anglesey) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2018

Gwnaed 4 Mai 2018

Made 4 May 2018

Yn dod i rym 11 Mai 2018

Coming into force 11 May 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 London to Holyhead Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Ffyrdd Ymuno ac Ymadael wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 11 Mai 2018.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Slip Roads at Junction 6 (Nant Turnpike), Isle of Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2018 and it comes into force on 11 May 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 11 Mai 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 London to Holyhead trunk road on the Isle of Anglesey;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi ar Ynys Môn.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 18:00 hours on 11 May 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ar y darnau o ffyrdd ymadael a ffyrdd ymuno tua'r dwyrain neu tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant).

Cymhwys

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

4 Mai 2018

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to be driven on the lengths of the eastbound or westbound exit and entry slip roads of the trunk road at Junction 6 (Nant Turnpike).

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

4 May 2018

Richard Morgan
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH
GYFFORDD 6 (TYRPEG NANT), YNYS MÔN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 6 (Tyrpeg Nant). Ni fydd y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin a thua'r dwyrain ar gau ar yr un pryd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno gadael yr A55 wrth y gyffordd hon fydd parhau hyd at y gyffordd nesaf (Cyffordd 5 (Treban) neu Gyffordd 7 (Cefn Du)), ymadael yno a dychwelyd ar hyd y gerbyttffordd gyferbyn i ymadael wrth Gyffordd 6.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 6 fydd ymuno â'r gerbyttffordd gyferbyn â'r gyffordd hon, mynd hyd at y gyffordd nesaf (Cyffordd 7 (Cefn Du) neu Gyffordd 5 (Treban)), ymadael yno a dychwelyd ar hyd y gerbyttffordd tua'r gorllewin/dwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym ar 11 Mai 2018 ac yn weithredol dros nos (18:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 14 Mai 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/Gorchymynion Traffig Dros Dro/2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymnion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (SLIP ROADS AT
JUNCTION 6 (NANT TURNPIKE), ISLE OF
ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES) ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 6 (Nant Turnpike), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the A55 westbound and eastbound exit and entry slip roads at Junction 6 (Nant Turnpike). The westbound and eastbound slip roads will not be closed at the same time.

The alternative route for traffic wishing to leave the A55 at this junction will be to continue to the next junction (Junction 5 (Treban) or Junction 7 (Cefn Du)), exit and return on the opposite carriageway to leave at Junction 6.

The alternative route for traffic wishing to join the A55 at Junction 6 will be to join the opposite carriageway at this junction, proceed to the next junction (Junction 7 (Cefn Du) or Junction 5 (Treban)), exit and return on the westbound/eastbound carriageway.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force on 11 May 2018 and operate overnight (18:00 – 06:00 hours) until 14 May 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government